CODI ARIAN AT YR YSGOL

EILLIO PEN

Mae'r gwaith o godi arian i anfon grwp cân actol blwyddyn 4, 5 a 6, Ysgol Gymuned Penisarwaun i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn mynd rhagddo'n arbennig o dda. Lansiwyd y gweithgareddau'n swyddogol ar 2 Ebrill, gyda noson bingo yn yr ysgol, ac eilliodd Miss Bethan Williams cymhorthydd yn yr ysgol ei phen i godi arian i dalu tuag at costau am daith y plant i Gaerdydd. Diolch i bawb a gefnogodd y noson ac i'r rheini a fu wrthi'n brysur yn hel noddwyr dros Miss Williams. Cawn wybod faint gafodd ei hel ar ôl gwyliau'r Pasg.

Boreau Coffi

Diolch hefyd i Gwenda, Carol a Carolyn am redeg boreau coffi ar gyfer y pentref yn y Neuadd Gymuned dros y pythefnos diwethaf. Llwyddwyd i godi dros £147 ar gyfer cronfa Caerdydd, a bu'r boreau'n boblogaidd iawn gyda rhieni a thrigolion y pentref. Diolch o galon i chi am eu trefnu.

Bydd y gweithgareddau a'r digwyddiadau codi arian yn parhau rhwng rwan a chanol Mai, gyda'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ar 27 Mai. Dylai unrhyw un sy'n awyddus i gyfrannu gysylltu â'r ysgol.

Fundraising: Fundraising to send the school's year 4, 5 and 6 cân actol (action song) to the National Urdd Eisteddfod is going well. Activities were officially launched on 2 April with a successful bingo night in the school, where Miss Bethan Williams bravely shaved her head to raise money to send the children to Cardiff. Thanks to everyone who supported the evening and to those who sponsored Miss Williams. We'll find out how much was raised after the Easter holidays.

Thanks also to Gwenda, Carol and Carolyn for running village coffee mornings in the Community Hall over the past fortnight. This raised over £145 for the Cardiff fund, and the mornings were a great success with both parents and people in the village. Thank you very much for organising.

The fundraising activities will continue until mid May, with the school competing in the National Urdd Eisteddfod in Cardiff on 27 May. Please contact the school if you wish to send a donation.

Eitemau ar gyfer Community News, Caernarfon & Denbigh Herald, 16 Ebrill 2009

PENISARWAUN

Codi arian: Diolch i bawb sydd eisoes wedi cyfrannu at y gronfa i anfon plant Ysgol Gymuned Penisarwaun i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd i gystadlu yn y gân actol ar gyfer blynyddoedd 4, 5 a 6. Byddwn yn pacio bagiau yn siop Morrisons, Caernarfon, ddydd Sul 3 Mai i godi arian, ac yna'n cynnal Ffair Fai ar dir yr ysgol, brynhawn Sadwrn 9 Mai, er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targed a chodi arian i gronfa'r ysgol.

Diolch yn arbennig i'r cwmnïau a busnesau lleol fu mor barod eu cefnogaeth dros yr wythnosau diwethaf, gan gynnig nawdd a gwobrau ar gyfer ein raffl fawr. Mae'r ysgol a'r gymuned leol yn gwerthfawrogi'ch cefnogaeth.

Bydd y gweithgareddau a'r digwyddiadau codi arian yn parhau rhwng rwan a chanol Mai, gyda'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd ar 27 Mai. Dylai unrhyw un sy'n awyddus i gyfrannu gysylltu â'r ysgol.

Fundraising: Thanks to everyone who's already donated to the fund to send the children of Ysgol Gymuned Penisarwaun to compete in the cân actol (action song) for years 4, 5 and 6 at the National Urdd Eisteddfod in Cardiff. We'll be packing bags in Morrisons, Caernarfon on Sunday 3 May to raise money, and organising a May Fair on the school grounds on Saturday 9 May, to make sure that we reach our target and raise money for the school fund.

We're particularly grateful to the companies and local businesses which have been so supportive over the last few weeks, offering prizes for the grand raffle and sponsoring the school. Both the community and the school itself appreciate your help and support.

The fundraising activities will continue until mid May, with the school competing in the National Urdd Eisteddfod in Cardiff on 27 May. Please contact the school if you wish to send a donation.